

RHAGLEN ARFOR

Grantiau i Gefnogi Defnydd yr Iaith Gymraeg mewn Busnes ar Ynys Môn



Creu Gwaith - Cefnogi'r Iaith



Ffurflen Gais

Diweddarwyd 13.08.2020

FFURFLEN GAIS GRANT ARFOR YNYS MÔN

Sylwer fod Nodiadau Cymorth y Ffurflen gais ar waelod y ddogfen

Rhan 1 – Ffurflen Buddiolwyr / Gwybodaeth Gyffredinol

1.1 Enw'r a Chyfeiriad
Y Busnes

1.2 A yw'r busnes

ar fin cael ei sefydlu?

Yn gweithredu eisoes?

1.3 Ym mha flwyddyn sefydlwyd y busnes / masnachu wedi cychwyn?

1.4 Math o fusnes (e.e. unig fasnachwr / cwmni ayyb)?

1.5 Disgrifiwch yn gryno brif weithgareddau eich busnes

1.6 Oes gan y busnes gyfrif banc yn ei enw sydd angen llofnod 2 o bobl i awdurdodi taliad?

Oes

Nagoes

1.7 Ydi'r busnes yn gallu hawlio TAW yn ôl?

Ydi

Nacydi

Rhif TAW:

1.8 Rhif Cofrestru (os yn berthnasol)

1.9 Manylion cyswllt perthnasol

Enw'r prif gyswllt:

Swydd o fewn y busnes:

Rhif ffôn:

E-bost:

Cadarnhad bod Asesiad Iaith Gymraeg yn ei le;

Rwyf yn tystio bod yr Ymgeisydd wedi derbyn asesiad ieithyddol o'r busnes.

Enw'r Swyddog Menter Iaith Môn:

Arwyddwyd:

Dyddiad:.....

Rhan 2 – Ffurflen Gais Grant IEITHYDDOL Arfor Ynys Môn

2.1 Ydych chi wedi derbyn asesiad ieithyddol?

Do Naddo

2.2 Amlinellwch beth oedd prif argymhellion yr asesiad ieithyddol ar gyfer eich busnes?

2.3 Nodwch eich dyheadau ar gyfer sut hoffech weld y busnes yn defnyddio mwy o'r Gymraeg?

2.4 Beth, yn eich tyb chi, yw'r manteision i'ch busnes o wneud hyn a sut mae'n rhan o'ch cynllun busnes ehangach?

2.5 Rhowch fanylion isod, fesul eitem, o'r gwariant yr ydych angen cymorth tuag atynt**

Eitemau cyfalaf / referiw	Cyflenwyr	Cost (heb. TAW)	Cost (efo TAW)	
CYFANSWM GWARIANT				

** Rhaid cael prisiau cystadleuol am unrhyw offer neu wasanaeth a brynir.

2.6 Ydi eich busnes wedi cael unrhyw grant o arian cyhoeddus yn y 3 mlynedd diwethaf?

- Do. Os ydych chi wedi cael arian o'r fath, byddwn angen gwybod. Bydd angen i chi arwyddo'r ffurflen ddatgan cymorth De-Minimis.
- Naddo

Datganiad Ymgeisydd i Gais Grant Iaith Arfor:

Cadarnhaf bod y busnes wedi trafod y cais yma efo Menter Iaith Môn.

Rwyf yn cadarnhau ar ran y busnes sy'n cyflwyno'r cais hwn fod gennyf yr awdurdod i arwyddo'r datganiad hwn a bod yr holl wybodaeth sydd ar y ffurflen hon, cyn belled ag y gwn, yn gywir.

Rwyf yn deall os bydd y grant iaith Arfor yn cael ei gytuno, y bydd yn rhaid gwario'r grant yn unol ag amodau a thelerau'r cynnig, ac oni bai y cedwir at yr amodau mae'n bosibl y bydd rhaid ad-dalu'r grant naill ai'n rhannol neu'n llawn.

Enw:

Swydd yn y Busnes:

Llofnod: Dyddiad:.....

NODWCH: Ni ddylai'r prosiect iaith ddechrau nes eich bod wedi derbyn, ac arwyddo, cynnig ffurfiol o grant gan Menter Môn neu Gyngor Sir Ynys Môn.

Deddf Diogelu Data 1998: *I bwrpas y Ddeddf, Cyngor Sir Ynys Môn sy'n rheoli'r data. Fodd bynnag, yn yr achos hwn mae'r data'n cael ei brosesu gan Menter Môn ar ran y Cyngor. Defnyddir yr wybodaeth ar y ffurflen hon i bwrpas gweinyddu grantiau a chymorthdaliadau. Mae'n bosibl y bydd yn cael ei ddatgelu i asiantaethau eraill yn unol â chofrestriad y Cyngor o dan y Ddeddf ac i Lywodraeth Cymru yn unol â gweinyddu cynlluniau Arfor. Fel awdurdod cyhoeddus, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn dod o dan ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.*

DATGANIAD CYMORTH DE-MINIMIS

Mae Menter Môn / Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnig cymorth dan reoliad *de Minimis* y Comisiwn Ewropeaidd (Rheoliad 1998/2006). Mae hyn yn caniatáu i fusnes / sefydliad gael hyd at 200,000 ewro o gymorth *de Minimis* dros gyfnod o dair blynedd.

Felly, er mwyn cadarnhau eich bod yn gallu cael y cymorth hwn, rhaid i chi ddatgan y swm llawn o gymorth *de Minimus* rydych chi wedi'i gael yn y 36 mis diwethaf.

Bydd gofyn i bob busnes / sefydliad sy'n ceisio cefnogaeth gydnabod y rheolau a gwneud yn siŵr na fydd y cymorth a roddir dan y rhaglen hon yn uwch na'r uchafswm cymorth a ellir ei roi i sefydliad dan y rheoliadau hyn.

NAILL AI: Rwy'n datgan mai dyma'r symiau o gymorth *de Minimis* a gafodd y busnes / sefydliad yn y tair blynedd diwethaf:

Blwyddyn:2020	Blwyddyn:	Blwyddyn:	CYFANSWM
Swm:	Swm:	Swm:	
Corff / Cyrff Ariannu:	Corff / Cyrff Ariannu:	Corff / Cyrff Ariannu:	

NEU: Rwy'n datgan nad yw'r busnes hwn wedi cael unrhyw gymorth *de Minimis* (*ticiwch y bocs*)

Rhaid i ni gael y wybodaeth yma er mwyn gwneud yn siŵr:

- Nad yw'r cymorth a roddir, wrth ei gyfuno â chymorth de-minimis arall y mae eich busnes/ sefydliad wedi'i gael yn y 3 blynedd diwethaf yn fwy na (200,000 ewro).
- Na fydd eich busnes / sefydliad yn cael cymorth de minimis mewn unrhyw gyfnod o dair blynedd pe byddai, wrth ei gyfuno â'r cymorth a roddwyd, yn fwy na (200,000 ewro).

Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion am gymorth De Minimus unigol am 10 mlynedd o'r dyddiad y'i rhoddwyd.

DATGANIAD – I'W LENWI GAN YR YMGEISYDD

Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddais yn gywir. Rwy'n deall y bydd rhaid i mi ad-dalu unrhyw gymorth ariannol a roddir neu na fydd taliadau yn y dyfodol yn cael eu talu os darganfyddir bod y wybodaeth yma'n anghywir.

Enw'r Busnes / Sefydliad _____

Enw (PRINTIWCH) _____

Llofnod _____

Swydd _____ Dyddiad _____

NODIADAU CYMORTH I WNEUD CAIS

Bydd y nodiadau canlynol yn eich helpu i lenwi ffurflen gais ar gyfer Cronfa Arfor. Rhoddir eglurhad o'r hyn sydd angen i chi ei ystyried a'i gyflwyno wrth i chi ateb y cwestiynau.

Cyn i chi ddechrau llenwi'r ffurflen gais, mae'n bwysig eich bod yn darllen canllawiau'r Gronfa Arfor, fel eich bod yn deall amcanion y gronfa. Bydd y nodiadau yn help i chi wrth feddwl am atebion i'r cwestiynau.

Rhan 1: Ffurflen Buddiolwyr / Gwybodaeth Gyffredinol

Disgwylir i bawb sydd yn ceisio am gymorth drwy'r Gronfa Iaith Arfor lenwi rhan un o'r ffurflen gais.

- 1.1. Dylai enw'r busnes sy'n gofyn am gymorth oddi wrth y Gronfa Arfor fod yr un fath â'r enw ar y cyfansoddiad a manylion banc y Busnes.
- 1.2. Gofynnir os yw'r busnes yn fusnes sy'n bodoli eisoes neu ar fin cychwyn
- 1.3. Nodwch ddyddiad sefydlu neu ddechrau masnachu eich busnes
- 1.4. Nodwch natur eich busnes. Os ydych yn cyflwyno cais ar ran grŵp o fusnesau neu fenter cymnedol neu elusen, mae'n rhaid cyflwyno cyfansoddiad sydd yn dangos eich bod yn gweithredu _____ fel _____ busnes.
- 1.5. Rhowch ddisgrifiad byr o beth mae eich busnes yn ei wneud a beth yw ei brif amcanion. Os yw'r busnes yn un newydd, digrifwch beth yr ydych yn bwriadu ei _____ wneud.
- 1.6. Rhaid cadarnhau os oes angen dau o bobl i roi eu llofnod er mwyn awdurdodi taliadau o gyfrif banc y busnes ai peidio.

- 1.7. Nodwch os ydi eich busnes yn hawlio Treth Ar Werth (T.A.W.). Os yw'r busnes yn cael ad-daliad T.A.W., ni fydd yr elfen hon o gost y cynllun yn gymwys am nawdd trwy'r Gronfa Arfor. Os oes elfennau o'ch cynllun sy'n rhydd rhag talu T.A.W., bydd angen nodi'r rhain. Dylid nodi rhif TAW eich busnes (ble yn berthnasol)
- 1.8. Nodwch rif cofrestru elusen/ cwmni'r busnes os oes un.
- 1.9. Bydd disgwyl ichi nodi enw un prif bwynt cyswllt ar gyfer y cais, gan gynnwys swydd y prif gyswllt o fewn y busnes, cyfeiriad y busnes a manylion cyswllt rhag ofn y bydd angen mwy o wybodaeth ac i'ch hysbysu o'r penderfyniad.

NODIADAU CYMORTH I WNEUD CAIS

Rhan 2 – Cronfa Ieithyddol Arfor

Disgwylir i chi lenwi rhan 2 os ydych yn ymgeisio am gymorth drwy'r gronfa ieithyddol. Noder bod modd ymgeisio am uchafswm grant o £2,000 ar gyfradd o hyd at 80% (h.y. disgwylir i bob ymgeisydd allu cyfrannu o leiaf 20% o gyfanswm cost y prosiect)

- 2.1. Mae'n amodol fod unrhyw fusnes / grwp sydd yn ymgeisio am gymorth drwy gronfa Ieithyddol Arfor wedi derbyn asesiad Ieithyddol o'r busnes yn gyntaf. Gofynnir ichi gadarnhau eich bod wedi cwblhau'r asesiad, a disgwylir ichi gyflwyno copi o'r asesiad gyda'r cais.
- 2.2. Dylid cyfeirio at y prif argymhellion Ieithyddol sydd wedi cael eu hamlygu yn yr asesiad Ieithyddol.
- 2.3. Nodwch eich dyheadau ar gyfer sut hoffech weld y busnes yn defnyddio mwy o'r Gymraeg a sut yr ydych yn gobeithio cynnal y defnydd hwn o fewn eich busnes.
- 2.4. Wrth gyfeirio at y manteision, dylid rhoi sylw i'r effaith y gellir ei wneud i chi fel busnes a'r economi leol.
- 2.5. Gofynnir i chi ddilyn y canllawiau i wahodd dyfynbrisiau wrth geisio prisiau am y prosiect a chynnwys yr holl dystiolaeth gyda'ch cais.